**PROTOCOL YNGHYLCH NEWIDIADAU I GYNNIG Y GYLLIDEB**

**Diben**

1. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r Protocol a gytunwyd rhwng Llywodraeth Cymru a'r Pwyllgor sy'n gyfrifol am y swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 19 ('y Pwyllgor') ac a gymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ('y Cynulliad') ar 21 Mawrth 2012. Mae'r protocol yn cynnwys yr egwyddorion penodol sy'n sail i broses y gyllideb. Mae hyn yn deillio o'r newidiadau i gynnig y Gyllideb a adlewyrchwyd yn y Cynnig Blynyddol ar y Gyllideb ar gyfer Cyllideb Derfynol 2012-13. Bydd y Protocol hwn yn weithredol pan gyhoeddir yr Ail Gyllideb Atodol ar gyfer 2011-12.

2. Ni fwriedir i'r Protocol hwn osod unrhyw hawliau neu rwymedigaeth gyfreithiol ar Lywodraeth Cymru na'r Cynulliad.

**Cefndir**

3 Defnyddiwyd cynnig y Gyllideb ers pasio Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Roedd fformat cynnig y Gyllideb, y mae'r Cynulliad yn pleidleisio arno, yn flaenorol yn gosod cyfansymiau rheoli cyllidebau unigol ar gyfer pob Prif Grŵp Gwariant (MEG). Pe bai Llywodraeth Cymru yn gwario mwy na'r cyfansymiau rheoli hyn, byddai ei chyfrifon yn amodol oherwydd bernid bod y gwariant yn afreolaidd ac yn anghyfreithlon.

4. Ym mis Medi 2011, trafododd y Pwyllgor Cyllid y dystiolaeth gan y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ ynghylch cynnig i ddiwygio cynnig y Gyllideb Llywodraeth Cymru drwy newid i gael un terfyn gwariant ar gyfer y Llywodraeth, yn hytrach na chyfansymiau rheoli cyllidebau unigol ar gyfer pob MEG.

5. Cyhoeddodd y Pwyllgor Cyllid ei adroddiad 'Ystyriaeth y Pwyllgor Cyllid o'r Cynnig i Ddiwygio Cynnig Cyllideb Blynyddol Llywodraeth Cymru' ar 17 Hydref 2011. Cytunodd Llywodraeth Cymru a'r Pwyllgor Cyllid y byddai un ffigur ar gyfer y Gyllideb yn cael ei ddarparu gan y Llywodraeth yng nghynigion y Gyllideb yn y dyfodol ar gyfer gwariant net a chyfanswm y terfyn incwm, yn amodol ar ddatblygu protocol ysgrifenedig rhwng Llywodraeth Cymru a'r Pwyllgor cyn i'r Llywodraeth osod y Gyllideb Atodol nesaf yn ystod y flwyddyn.

**Tryloywder Trosglwyddiadau Ariannol yn Ystod y Flwyddyn**

6. Mae gwaith y Cynulliad o graffu ar gynlluniau cyllidebol Llywodraeth Cymru a'r newidiadau i'r cynlluniau hynny yn elfen hanfodol o atebolrwydd democrataidd. Caiff yr egwyddorion sy'n sail i'r gwaith o graffu ar y gyllideb eu nodi yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad.

7. O dan drefniadau blaenorol, byddai angen Cyllideb Atodol ar gyfer cynigion i ddiwygio lefelau'r Prif Grwpiau Gwariant yn ystod y flwyddyn. Mae'r diwygiad i gynnig y Gyllideb yn golygu y bydd angen cynigion yn y dyfodol ar

gyfer newidiadau yn ystod y flwyddyn dim ond pan fydd Llywodraeth Cymru yn dyrannu arian o'r cronfeydd wrth gefn, neu os bydd Llywodraeth y DU yn darparu arian ychwanegol. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i roi'r un faint o wybodaeth o leiaf i'r Pwyllgor am gyllidebau, a'r un nifer o Gyllidebau Atodol, ag a gafwyd yn flaenorol.

8. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i osod dwy Gyllideb Atodol y flwyddyn, yn amodol ar baragraffau 9 a 10.

9. Os nad yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi Cyllideb Atodol yn ystod y tymor cyn toriad yr haf, bydd yn ysgrifennu at y Pwyllgor cyn y toriad i egluro pam nad oes ei hangen ac i ofyn am ymateb y Pwyllgor.

10. Os na chaiff y Gyllideb Atodol a gyhoeddir fel arfer tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol ei chyhoeddi, bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at y Pwyllgor cyn diwedd y flwyddyn ariannol i egluro pam nad oes ei hangen ac i ofyn am ymateb y Pwyllgor. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cyflwyno adroddiad ysgrifenedig i'r Pwyllgor ynghylch yr amrywiadau rhwng y cynlluniau gwario a nodir yn y Gyllideb Derfynol ar gyfer y flwyddyn o dan sylw a'r cynlluniau diweddaraf ar y Gyllideb sydd ar gael. Bydd yr adroddiad yn egluro unrhyw drosglwyddiadau sylweddol yn y Gyllideb, gan gynnwys manylion am:

- drosglwyddiadau rhwng y Prif Grwpiau Gwariant; a
- throsglwyddiadau mawr o fewn y Prif Grwpiau Gwariant.

## Dogfennau ar y Gyllideb

11. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu'r un faint o wybodaeth yn y dogfennau ar y Gyllideb sy'n gysylltiedig â phob Cyllideb Atodol ag a ddarparwyd yn flaenorol, gan gynnwys eglurhad o unrhyw drosglwyddiadau sylweddol yn y Gyllideb. Bydd y prif ddogfennau a ddarperir gyda'r Gyllideb Atodol yn cynnwys Nodyn Esboniadol yn cynnwys manylion am:

- drosglwyddiadau rhwng y Prif Grwpiau Gwariant;
- trosglwyddiadau i/oddi wrth Lywodraeth y DU;
- trosglwyddiadau i'r/o'r cronfeydd wrth gefn; a
- throsglwyddiadau mawr o fewn y Prif Grwpiau Gwariant.

12. Yn ogystal, yn unol â'r arfer blaenorol, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi tablau gweithredu y Prif Grwpiau Gwariant.

## Manylion am y Gyllideb

13. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyhoeddi cynlluniau gwariant ar lefel gweithredu o leiaf. Wrth gyflwyno'r Gyllideb ar lefel gweithredu, mae

Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio gyda phwyllgorau'r Cynulliad a bydd yn ymgeisio i ddarparu rhagor o fanylion am gynlluniau'r gyllideb i'r Cynulliad a'i bwyllgorau ar gais.

14. Os na all Llywodraeth Cymru ddarparu'r wybodaeth i bwyllgor o fewn y cyfnod gofynnol, bydd yn ysgrifennu at y pwyllgor hwnnw gan gyflwyno amserlen ar gyfer darparu'r wybodaeth honno.

**Trefniadau ar gyfer Cyflwyno Adroddiad ar Ddiwedd y Flwyddyn**

15. Yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i weithio mewn modd agored a thryloyw, bydd yn darparu adroddiad ysgrifenedig i'r Pwyllgor ar y canlyniadau terfynol. Bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys cymhariaeth â'r cynlluniau gwario a nodwyd yng Nghyllideb Atodol olaf y flwyddyn ac eglurhad o'r amrywiadau sylweddol.

16. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymdrechu i gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor cyn toriad yr haf yn syth ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Os na all y Llywodraeth ddarparu'r wybodaeth o fewn yr amser hwnnw, bydd yn ysgrifennu at y Pwyllgor gan gyflwyno amserlen ar gyfer darparu'r wybodaeth honno.

**Effaith ar Gyrff a Ariennir yn Uniongyrchol**

17. Mae adran 126(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn nodi bod angen awdurdodi unrhyw amrywiadau ariannol, arian sydd wedi cronni neu symiau yr awdurdodwyd i'w tynnu o Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer yr unigolion perthnasol hyn (fel y nodir yn adran 124(3)) mewn cynnig ar y Gyllideb Atodol. Felly, mae unrhyw newid i'r arian sydd ei angen ar y cyrff hyn a ariennir yn uniongyrchol yn ddibynnol ar gael cynnig ar y Gyllideb Atodol gan Lywodraeth Cymru. O dan y trefniadau diwygiedig hyn, dyma'r sefyllfa o hyd gan fod y newidiadau i gynnig y Gyllideb yn berthnasol i Lywodraeth Cymru yn unig.

18. Fel y nodir ym mharagraff 7, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu'r un nifer o Gyllidebau Atodol a ddarparwyd yn flaenorol. Felly, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i barhau i gyfathrebu'n rheolaidd â'r cyrff a ariennir yn uniongyrchol ac i geisio cynnwys eu gofynion ariannol yn ystod y flwyddyn drwy broses y Gyllideb Atodol. Bydd unrhyw gynnig i amrywio amlder y Cyllidebau Atodol yn rhoi ystyriaeth i ofynion y cyrff a ariennir yn uniongyrchol.

**Diwygiadau i'r Protocol hwn**

19. Gall Llywodraeth Cymru neu'r Pwyllgor gynnig gwelliannau i'r protocol hwn.

20. Cydnabyddir y gallai unrhyw bwerau ychwanegol a ddaw yn sgîl gwaith 'Y Comisiwn Annibynnol ar Ddatganoli yng Nghymru' arwain at newidiadau i broses y Gyllideb a diwygiadau posibl i'r Protocol hwn. Mae Llywodraeth

Cymru yn cytuno y bydd yn ymgynghori â'r Cynulliad ar effaith unrhyw bwerau newydd ar y cytundeb hwn. Felly, bwriedir i'r Protocol hwn gael ei ddiwygio cyn i unrhyw bwerau ychwanegol ddod i rym.

21. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i drafod gyda'r Pwyllgor y materion ehangach mewn perthynas â gwella sut y caiff y Gyllideb ei chyflwyno yn ogystal â'r tryloywder a'r atebolrwydd mewn perthynas ag arferion rheoli ariannol. Bydd canlyniad y gwaith hwn yn cael ei adlewyrchu mewn cytundeb ar wahân.